



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Diweddariad diwedd y flwyddyn 2018/19

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Diweddariad diwedd y flwyddyn 2018/19

Cynnwys

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015 i 2020	3
Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2018 i 2019	3
Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2019 i 2020	3
Hunanddatgelu	3
Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall	5
Cynllunio'r Sefydliad	6
Amddiffynfeydd rhag llifogydd sy'n hygyrch yn Aberhonddu	7
Mentora	8
Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd	8
Polisiâu cydraddoldeb	9
Y cyfryngau cymdeithasol (cydraddoldeb)	10
Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar 31 Mawrth 2018	11
Hamdden, addysg, iechyd a llesiant	11
Gwasanaeth cwsmeriaid	12
Laniardiau 'Byddwch yn chi'ch hun'	13
Rhwydweithiau staff	13
Gwladolion yr UE a Brexit	14
Grŵp Defnyddwyr a Gynorthwyr (TG a Theleffoni)	15
Y Gymdeithas Gristnogol	15
Cyfeillion Dementia	16
Rhwydwaith Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau a Menywod	16
Calon, y rhwydwaith i staff LHDT+	17
Rhwydwaith Staff Mwslimaidd	18

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015 i 2020

1. Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf yn 2015, yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghoriadau eang gyda'r cyhoedd. Gan fod y rheoliadau wedi dod i rym yn 2012, roedd cyrff eraill wedi cyhoeddi ar y pryd hwnnw a gwnaethant gynnal eu hadolygiadau pedair blynedd gyntaf yn 2016. Gan na chafodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei sefydlu nes 2013, golygai fod gwahaniaeth o un flwyddyn rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r gweddill, a fydd yn cyhoeddi eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol nesaf yn 2020.
2. Yn dilyn cyngor gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym mis Medi 2018, cytunwyd ar bapur gan ein Tîm Gweithredol i ymestyn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) presennol am un flwyddyn hyd at 2020. Mae'r weithred hon bellach wedi'n cydamseru â sefydliadau eraill ac mae'n ein caniatáu i ni gydweithio mwy wrth i ni ail-ymgynghori â phoblogaeth Cymru ynghylch ein cynllun nesaf.
3. Cymeradwyodd ein Tîm Gweithredol yr argymhelliad yn unfrydol a chafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol adolygiad mewnol terfynol (fel y cynghorwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol) ac mae wedi'i ail-ddyddio o 2015 i 2020 trwy gydol y ddogfennaeth.

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2018 i 2019

4. Mae ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2018/19 wedi cefnogi a helpu i gyflenwi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, heriau iach, yn enwedig yn ystod cyfnod o newid mawr. Ceir hyd i ddiweddariad cyflawn ar gynnydd sydd wedi'i wneud gyda'r cynllun ar ein gwefan.

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2019 i 2020

5. Mae ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb newydd ar gyfer 2019 i 2020 yn parhau i gefnogi blwyddyn olaf ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol ac mae'n gosod heriau mesuradwy i'r sefydliad wrth i'n strwythurau newydd gael eu rhoi ar waith. Ceir hyd i gopi o'n cynllun ar ein gwefan.

Hunanddatgelu

6. Mae ein cyfraddau hunanddatgelu trwy'r flwyddyn wedi aros yn gyson uchel ac mae gennym gyfartaledd sefydliadol o dros 70%. Mae hunanddatgelu o fewn y cyd-destun hwn yn golygu lle mae'n staff yn

cofnodi eu gwybodaeth nodweddion gwarchodedig megis anableddau, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd.

7. Mae'r data hwn wedi helpu i lywio ein penderfyniadau trwy esbonio cyfansoddiad amrywiol Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym heb gynrychiolaeth ddigonol o hyd mewn meysydd penodol o gymharu ag ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac rydym wedi adolygu ein hysbysebu recriwtio o ganlyniad er mwyn annog y grwpiau lleiafrifol a nodwyd y tu hwnt i'r cyfeiriadau anabledd traddodiadol.
8. Byddwn yn parhau i annog staff i gofnodi eu gwybodaeth er mwyn cynnal neu ragori ar y cyfraddau datgelu presennol ac mae Samantha Carpenter (Uwch-gynghorydd Cydraddoldeb) yn gallu nodi unigolion nad ydynt wedi datgelu eto. Fodd bynnag, rydym yn cofio bod hunanddatgelu nodweddion gwarchodedig yn broses wirfoddol a bod angen trin y wybodaeth yr ydym yn ei derbyn yn gyfrinachol iawn.

Ffurflenni hunanddatgelu wedi'u cwblhau 21 Chwefror 2019

	Ffurflenni Cydraddold eb, Amrywiaet h a Chynhwysi ant wedi'u cwblhau	Ffurflenni Cydraddold eb, Amrywiaet h a Chynhwysi ant nad ydynt wedi'u cwblhau	Cyfanswm	% Ffurflenni Cydraddold eb, Amrywiaet h a Chynhwysi ant wedi'u cwblhau	% Ffurflenni Cydraddold eb, Amrywiaet h a Chynhwysi ant nad ydynt wedi'u cwblhau
Cyfoeth Naturiol Cymru	1,413	526	1,939	72.9%	27.1%
PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL	2		2	100.0%	
TRAWSNEWIDIADAU	13		13	100.0%	
CYFATHREBU	38	2	40	95.0%	5.0%
LLYWODRAETHU	15	1	16	93.8%	6.3%
CYLLID	197	45	242	81.4%	18.6%
GWEITHREDIADAU DE CYMRU	445	122	567	78.5%	21.5%
TYSTIOLAETH, POLISI A THRWYDDEDU	326	130	456	71.5%	28.5%
GWEITHREDIADAU GOGLEDD CYMRU	377	226	603	62.5%	37.5%

Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall

9. Ym mis Medi 2018, cyfranasom ein chweched cyflwyniad i Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall. Mae'r mynegai yn ein meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill yn y Deyrnas Unedig ac mae'n cwmpasu deg maes allweddol yr ydym yn eu defnyddio yn yr un modd ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig ac nid pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a/neu drawsryweddol (LHDT) yn unig.
10. Er mwyn cwblhau'r cyflwyniad, gwnaethom gydweithio ar draws ein sefydliad gydag aelodau o staff Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl, Caffael, Cyfathrebu, a Chalon (rhwydwaith staff LHDT+ Cyfoeth Naturiol Cymru).
11. Dan arweiniad yr enghreifftiau o arfer gorau a geir yn set cwestiynau'r Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle, rydym wedi adolygu nifer o bolisiau allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gynhwysol, yn enwedig ar gyfer cyplau o'r un rhyw a phobl anneuaidd neu ryngrywiol. Yn ogystal, rydym wedi cyhoeddi cyfres o 'Ganllawiau Cyflym' trawsryweddol ar gyfer y rheini sydd â nodwedd warchodedig, eu cydweithwyr, rheolwyr, a gweithwyr proffesiynol adnoddau dynol.

Ein hanes o ran Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall

Crynodeb o daith Cyfoeth Naturiol Cymru o ran Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall

Blwyddyn Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle	Gradd Cyfoeth Naturiol Cymru	Nifer y cyfranogwyr yn y DU	Safle Cyfoeth Naturiol Cymru
2014	296	369	-----
2015	238	397	 58
2016	160	415	 78
2017	184	439	 24
2018	132	433	 52
2019	152	445	 20

12. Er ein bod yn cydnabod bod ein canlyniad yn 2019 wedi cwmpo 20 safle gradd, rydym yn dal i fod 144 safle'n uwch na phan wnaethom ymuno â'r mynegai. Rydym wedi gwneud cynnydd da fel sefydliad ac rydym wedi ein gosod yn y 14eg safle allan o 37 sefydliad yn sector y llywodraeth.

Cynllunio'r Sefydliad

13. Gyda'r Prif Weithredwr newydd yn y swydd, ac archwaeth cadarn ar gyfer symud ymlaen, rydym yn edrych i greu sefydliad gwych sy'n cyflawni ar gyfer cwsmeriaid a chymunedau ac sydd wedi sefydlu diwylliant mewnol sy'n hyrwyddo gweithlu hapus a chynhyrchiol. Rydym yn datblygu ein Gweledigaeth a Strategaeth Gorfforol hirdymor ac yn adnewyddu ein gwerthoedd, ac, o'r herwydd, mae'r amser bellach yn berffaith i adeiladu sefydliad newydd o ran ei gynllun, ei werthoedd a'i ffyrdd o weithio.

Holiaduron hygyrch

14. Yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol â staff ar Gynllunio'r Sefydliad, cafodd 93 aelod o staff fynediad at yr arolwg ymateb i'r ymgynghoriad trwy'r ddolen hygyrch. Er mwyn sicrhau bod yr arolwg mor hygyrch â phosibl i gydweithwyr sy'n defnyddio amrywiaeth o feddalwedd sy'n rhoi cymorth i ddefnyddwyr, datblygwyd a chyhoeddwyd dwy fersiwn o'r holiadur.
15. Roedd un fersiwn yn cynnwys graffeg, amrywiaeth o arddulliau cwestiwn gwahanol a llwybryddion dynamig; roedd fersiwn hygyrch hefyd a oedd yn cynnwys dolen i fersiwn testun blaen o'r holiadur.
16. Roedd y fersiwn hygyrch yn cynnwys arddulliau cwestiwn syml, gan gynnwys cwymplenni a chwestiynau pen agored sy'n haws i feddalwedd darllen sgrin eu darllen a meddalwedd a ysgogir gan lais eu llywio a'u cwblhau. Yn ogystal, roedd testunau labeli wedi'u hanodi'n llwyr o fewn yr arolwg ar gyfer meddalwedd darllen sgrin ac roedd delweddau megis logos yn cynnwys disgrifiadau testun Alt llawn ar gyfer meddalwedd darllen sgrin. Ar ben hynny, gwaredwyd â'r angen am fformatio gorfodol o ymatebion er mwyn helpu i leihau'r problemau ar gyfer meddalwedd darllen sgrin. Cafodd y fersiwn hygyrch ei chyhoeddi i safonau hygrychedd W3C, ac roedd yn cynnwys cyhoeddi fersiwn testun blaen (a oedd yn hygyrch trwy ddolen yn yr arolwg) nad oedd yn cynnwys unrhyw liwiau, delweddau neu lwybryddion dynamig.
17. Yn ogystal, cynhyrchwyd fersiwn PDF o'r holiadur, y gellid ei hargraffu a'i chwblhau ar gyfer defnyddwyr yr oedd yn well ganddynt ei chwblhau ar gopi caled. Cefnogwyd hyn gan rwydwaith trosglwyddo penodol o gynorthwywyr gweithredol a chynorthwywyr personol ar gyfer pob cyfarwyddiaeth, ac unwaith y cafodd holiadur ei dderbyn, byddai'n cael ei anfon i'w logio a'i ystyried.
18. Roedd angen trefniadau gofalus a phrofi a phrawfddarllen dyddiol ar y dull hwn, yn ogystal â chyfraniad amhrisiadwy cydweithwyr ac arbenigwyr

ymroddgar, er mwyn gwneud yr arolwg mor hygyrch â phosibl ar gyfer ein staff.

19. Yn ogystal, wrth ymgynghori â chydweithwyr, datblygodd Swyddfa'r Portffolio Trawsnewid siartiau trefniadaeth monocrom er mwyn caniatáu i'r rheini a effeithir gan ddallineb lliw i helpu i ddefnyddio'r siartiau trefniadaeth wrth gadw holl nodweddion y Disgrifiadau Rôl perthnasol. Er mwyn cefnogi'r ymgynghoriad ffurfiol, gwnaed defnydd o fewnflwch Cynllunio'r Sefydliad i alluogi cydweithwyr i ofyn cwestiynau, i fwydo i mewn i'r broses neu i geisio eglurder ar gyfer cwestiynau, gan alluogi llwybr pellach i bawb gael ymgysylltu â'r broses.
20. Yn ogystal, cwblhawyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb Cynllunio'r Sefydliad, yn barod at lansiad yr ymgynghoriad ffurfiol. Mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau nad oes unrhyw duedd yn y broses, a bod y naw nodwedd warchodedig yn cael eu hystyried yn briodol yn y cynllun, ond hefyd wrth sicrhau bod canlyniad cytbwys yn y cyfleoedd a gynigir i'n holl gydweithwyr wrth i Cyfoeth Naturiol Cymru symud tuag at y strwythur newydd.

Amddiffynfeydd rhag llifogydd sy'n hygyrch yn Aberhonddu



21. Cafodd gwaith i wella mynediad dros amddiffynfa rhag llifogydd â ramp ei gwblhau ym mis Hydref 2018. Cynlluniwyd y prosiect gan Adrian Jones o Gymorth Technegol y De-ddwyrain. Nid oedd yr amddiffynfa, gyda'i graddiant serth, yn cydymffurfio â chanllawiau presennol ac roedd yn anodd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd ei ddefnyddio. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Grŵp Mynediad Anabledd Brycheiniog wedyn i gael rywfaint o adborth a chanmolodd ei aelodau'r newidiadau fel llwyddiant mawr gan fod ardaloedd hamdden o amgylch Cynllun Llifogydd Aberhonddu bellach yn hygyrch i'r rheini â symudedd cyfyngedig.

Mentora

22. Mae Nadia de Longhi o dîm rheoli Gweithrediadau'r De yn cymryd rhan yng nghynllun mentora Chwarae Teg fel rhan o'u rhaglen menywod, gan ddatblygu perthynas â mentorai yng nghwmni Dŵr Cymru. Mae'r sylw gan y mentorai fel a ganlyn: *"Rwyf wedi ymuno â'r cynllun mentora, sydd wedi bod yn amhrisiadwy o ran darparu cefnogaeth ac arweiniad yr oedd eu hangen arnaf yn ystod y misoedd cyntaf yn fy rôl fel rheolwr llinell, gan gynyddu fy hyder a chynnig sgiliau ac arweiniad i ddelio â gwrthdaro ac wrth gynnal adolygiadau rheoli perfformiad. O ganlyniad i'r cynllun mentora, teimlaf fy mod nawr yn gallu rheoli tîm yn hyderus, trafod ar lefel uwch-reolwyr a chyfarwyddwyr â hyder, ac ymestyn fy nghyfleoedd rhwydweithio, sydd ond yn gallu cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad gyrfa."*

Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

23. Ym mis Mai 2018, gwnaethom gwblhau'n llwyddiannus ein hymarfer hunanasesu ac, o ganlyniad, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ailachredu Cyfoeth Naturiol Cymru fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd nes 27 Mai 2020.
24. Cynhaliwyd yr hunanasesiad gan Samantha Carpenter (Uwch-gynghorydd Cydraddoldeb) ac ystyriodd agweddau o'n harferion recriwtio a chadw ar gyfer pobl ag anabledd.



Cynllun gwarantu cyfweliad 'Dau Dic'

25. Yn ystod blwyddyn galendr 2018, gwnaethom barhau i gydymffurfio 100% gyda'n cynllun gwarantu cyfweliad 'Dau Dic', lle mae ymgeiswyr sy'n datgan bod ganddynt anabledd, yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010, ac sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y rôl y gwneir cais amdani, yn derbyn cyfweliad yn awtomatig.
26. Yn allanol, gwnaethom dderbyn ceisiadau gan 903 o bobl, yr oedd 33 (3.7%) ohonynt yn gofyn am gyfweliad gwarantedig. Cafodd 17 o'r rheini eu gwahodd am gyfweliad ac nid oedd yr 16 oedd yn weddill yn bodloni'r meini prawf sylfaenol.

27. Yn fewnol, gwnaethom dderbyn ceisiadau gan 384 o bobl, yr oedd 12 (3.1%) ohonynt yn gofyn am gyfweliad gwarantedig. Cafodd naw o'r rheini eu gwahodd am gyfweliad ac nid oedd y tri oedd yn weddill yn bodloni'r meini prawf sylfaenol.

Polisïau cydraddoldeb

28. Fel rhan o'r gwaith Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle, gwnaethom adolygu ein polisïau allweddol er mwyn sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn llwyr gynhwysol ar gyfer ein holl staff. Enghreifftiau o hyn oedd sicrhau bod y polisi mabwysiadu yn gynhwysol o ran cyplau o'r un rhyw, gan osgoi enghreifftiau o 'ef/hi' a'u cyfnewid am dermau nad ydynt yn benodol o ran rhyw megis 'hwy' neu 'nhw'.
29. Rydym wedi creu a chyhoeddi cyfres o [Ganllawiau Cyflym ar Drawsrywedd](#) ar ein mewnrwyd, sydd wedi'u hanelu at bobl draws, eu rheolwyr, ein gweithwyr adnoddau dynol proffesiynol a chydweithwyr. Mae'r canllawiau hyn yn gyflenwol i'n polisïau ac yn defnyddio iaith sy'n fwy sgysiol.
30. Mae adolygu polisïau yn broses parhaus a bydd y gwaith yn parhau i sicrhau eu bod nhw, ac unrhyw bolisïau newydd, yn cael eu geirio a'u defnyddio mewn modd cynhwysol.

Y cyfryngau cymdeithasol (cydraddoldeb)

Amrywiaeth yn y Cyfryngau Cymdeithasol 2018



DIWRNODAU A NODWYD: 7

Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
Diwrnod Gwelededd Traws
Diwrnod Gwelededd Lesbiaidd
Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia, Deuffobia a Thrawsffobia
Pride
Diwrnod Gwelededd Deurywiol
Diwrnod Coffa Traws

38,508
O BOBL
WEDI'U CYRRAEDD



635
o sylwadau a
rhaniadau

558 o hoffterau



295 o ymatebion caru



480 o ymweliadau â'r proffil



24 o ymweliadau â'r proffil



Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar 31 Mawrth 2018

31. Rydym wedi ailadrodd ein dadansoddiad o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2018 ac wedi adrodd bod ein prif ffigur nawr yn 4.8%. Yn y DU, mae'r bwlch cyflog wedi gostwng o 10.5% yn 2011 i 8.6% yn 2018 (Swyddfa Ystadegau Gwladol), ond mae'n parhau i fod yn bositif o ran gwerth – sy'n golygu bod dynion ar gyfartaledd yn cael eu talu'n fwy na menywod.

Crynodeb o Fwlch Cyflog rhwng y Rhywiau Cyfoeth Naturiol Cymru

31 Mawrth	Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau	Gwahaniaeth
2016	7.8%	-----
2017	5.5%	↓ 2.3%
2018	4.8%	↓ 0.7%

32. Mae ein data yn fyw ar [Wasanaeth Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau](#) Gov.UK yn ogystal â thudalennau ein gwefan ein hunain yn unol â deddfwriaeth ac mae'n cynnwys dadansoddiad o nifer y menywod a dynion fesul chwarterl.

	Nifer y gweithwyr	
	Gwryw	Benyw
Uchaf	293	177
Canol uchaf	288	183
Canol isaf	229	242
Isaf	256	215

Hamdden, addysg, iechyd a llesiant

Gwreiddio hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a mynediad cynhwysol (cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant) i'r awyr agored

33. Cafodd yr Ymddiriedolaeth Synhwyrdd ei chomisiynu ar ddechrau 2018 i gynnal tri digwyddiad hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ledled Cymru ar gyfer staff Cyfoeth Naturiol Cymru a leolir ar safleoedd â chylch gwaith hamdden, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am arfer gorau. Cafodd yr hyfforddiant dderbyniad da ac rydym yn gweithio nawr ar ddatblygu rhaglen hyfforddiant ar gyfer yr holl

staff sy'n ymwneud ag ymwelwyr a polisi rheoli adnoddau naturiol â chylch gwaith hamdden fel ei fod ar gael i staff yn ehangach.

Datblygu dull gwybodaeth cynhwysol i'r awyr agored ar gyfer ymwelwyr anabl

34. Rydym yn gweithio gyda sefydliad elusennol o'r enw Experience Community i ddatblygu ffurfiau ar wybodaeth sy'n weledol ac yn arloesol am lwybrau di-rwystr mwy heriol. Dylai'r dull hwn alluogi pobl i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn ag a yw llwybr yn addas ar eu cyfer a'u cyfarpar cyn cychwyn.
35. Wrth roi hyder i ddefnyddwyr, rydym yn cyfrannu tuag at gynnydd mewn cyfranogiad ymysg grwpiau o bobl sy'n cael eu gadael allan yn aml. Rydym yn treialu'r dull ar safleoedd Cyfoeth Naturiol Cymru dethol, gan ystyried opsiynau wedi'u costio ar gyfer gwybodaeth weledol, o lwybrau lluniau i ffurfiau amrywiol o ddeunydd ffilm sy'n dangos arwyneb, lled a graddiant llwybrau i ymwelwyr yn ogystal â phwyntiau o ddiddordeb – dylunnir hyn er mwyn ychwanegu gwerth i'r wybodaeth yr ydym yn ei darparu yn y testun.
36. Mae ehangu cyfleoedd ar gyfer pobl ag anableddau fel eu bod yn gallu mwynhau bod yn yr awyr agored mewn amgylcheddau mwy heriol yn ategu'r gwaith rydym yn ei wneud i hyrwyddo llwybrau byrrach hygyrch ar dir a berchnogir ac a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Llefydd i ymweld â nhw ar gyfer pob gallu

37. Mae gan lawer o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol a choetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru lwybrau a chanolfannau ymwelwyr hygyrch, yr ydym yn eu hyrwyddo ar ein gwefan. Y mae tudalen ar gael nawr sy'n dangos ym mhle y mae'r rhain yn ôl rhanbarthau daearyddol:
<https://naturalresources.wales/days-out/things-to-do/all-ability-activities/?lang=cy>
38. Mae Garwnant wedi ymddangos yn y rhifyn diweddaraf o The Rough Guide to Accessible Britain a gobeithiwn y byddwn yn gweld mwy o'n safleoedd yn cael eu hychwanegu mewn rhifynnau yn y dyfodol.

Gwasanaeth cwsmeriaid

39. Yn gynharach yn y flwyddyn ariannol hon, gwnaethom gynnig dau le hyfforddiant i'n staff yn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid, a oedd wedi'u darparu gan Stonewall Cymru o dan yr enw [Cyflenwi Gwasanaeth Cynhwysol](#).

40. Mae'r rhaglen undydd yn weithdy sy'n cael ei gyflenwi gan Wasanaeth Gwybodaeth Stonewall ar gyfer sefydliadau yng Nghymru â rhwymedigaethau o ran cyflenwi gwasanaeth. Datblygwyd y gweithdy hwn ar gyfer staff ar y llinell flaen neu mewn rolau ymgynghorol neu ddarparu gwasanaeth perthnasol eraill, a'r bwriad yw llywio'r gwaith rydym yn ei wneud er mwyn cyflenwi gwasanaethau cynhwysol a grymuso staff i gymryd camau er mwyn gweithredu arfer da.
41. Yn dilyn llwyddiant yr hyfforddiant hwn, sydd bellach wedi'i basio ymlaen i eraill yn nhîm y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid, rydym wedi cynnal gweithdy tebyg yn ein swyddfa ym Mangor ar gyfer ein staff TGCh sy'n delio â chwsmeriaid mewnol.

Laniardiau 'Byddwch yn chi'ch hun'

42. Ar ddiwedd 2018, cawsom nifer o laniardiau amrywiaeth sydd wedi'u cynhyrchu'n ddwyieithog gyda'r geiriau '*Byddwch yn chi'ch hun / Be Yourself*' wedi'u hysgrifennu arnynt. Trwy annog staff i'w gwisgo, gallwn greu datganiad sydd hyd yn oed yn fwy gweladwy fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gefnogol o'n hymrwymadau ar gyfer cyfartaledd, amrywiaeth a chynhwysiant. Lansiwyd y rhain yn y diwrnod #TîmCNC yn Aberystwyth ym mis Hydref.



Rhwydweithiau staff


43. Mae ein rhwydweithiau staff yn parhau i fod yn weithredol ac yn iach. Fel sefydliad, rydym yn parhau i gael ein herio'n gynhyrchiol dros faterion sy'n codi'n achlysurol. Enghraifft o hyn yw ein cydweithio parhaus gyda'r

Rhwydwaith Cydraddoldeb a Menywod ynghylch ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

44. Yn hwyr ym mis Hydref 2018, gwnaethom gynnal ein dydd #TîmCNC cyntaf yn Aberystwyth. Diwrnod ar gyfer gwneud Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad y gallwn ni i gyd ymfalchïo ynddo ... lle rydym i gyd yn teimlo ein bod yn perthyn a gyda'n gilydd, gan wneud gwahaniaeth i'r amgylchedd ac i bobl Cymru.
45. Roedd gan ein rhwydweithiau staff lefydd ym 'marchnad #TîmCNC' ar y diwrnod a gwnaethant ymgysylltu wyneb-yn-wyneb â'n pobl, gan roi cyfle iddynt ddysgu mwy am yr hyn y mae ein rhwydweithiau staff yn cymryd rhan ynddo a sut i gymryd rhan drostynt eu hunain.

Gwladolion yr UE a Brexit

46. Er nad yw'n rhwydwaith staff a 'gydnabyddir yn swyddogol', mae ein haelodau o staff sy'n gwladolion o'r UE ac a allai gael eu heffeithio gan Brexit wedi creu grŵp cyfryngau cymdeithasol Yammer i gynnig cyd-gefnogaeth a thrafodaeth wrth i fanylion am Brexit ddod yn fwy clir.
47. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych ar ffyrdd y gallwn gefnogi'r grŵp hwn fwy ac rydym wedi mentro i drafod pwnc ffioedd setliad gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r ffioedd hyn wedi'u dileu bellach (Ionawr 2019). Yn ogystal, rydym wedi ymchwilio i ganllawiau gan Gov.UK a'u gwneud ar gael trwy dudalen mewnwyd benodol ac rydym yn ymgysylltu'n weithredol â staff trwy grŵp Yammer Gwladolion yr UE.



Grŵp Defnyddwyr a Gynorthwyr (TG a Theleffoni)

48. Mae gennym nifer o staff sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol fel y meddalwedd darllen sgrin a lleferydd i destun JAWS, Dragon Naturally Speaking, Zoom Test Reader, Dolphin Supernova ac ati. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau nad yw caledwedd a meddalwedd technoleg gwybodaeth na systemau teleffoni yn rhoi pobl o dan anfantais. Rydym yn cyfarfod ar sail "yn ôl yr angen", ac mae gennym grŵp sydd wedi ei sefydlu ar Yammer i ddefnyddwyr allu gofyn cwestiynau neu gael atebion i'r problemau y gallent fod yn eu cael.
49. Mae'r rhwydwaith staff hwn yn allweddol i sicrhau y gall yr holl staff ddefnyddio ein systemau ac yn rhannu arferion gorau gydag aelodau'r grŵp defnyddwyr ac yn profi systemau arfaethedig gyda defnyddwyr yn rheolaidd ar ran y sefydliad.

Y Gymdeithas Gristnogol

50. Trwy gydol 2018, roedd y rhwydwaith yn gweithio trwy gyfres astudio'r Beibl a enwir yn 10+, sy'n edrych ar bob un o'r Deg Gorchymyn. Mae'r astudiaethau hyn yn helpu i ganolbwyntio ar dair agwedd: ffydd, gonestrwydd a chariad. Mae'r astudiaethau yn delio â materion bywyd go iawn, gan dorri rhwystrau i lawr a helpu pobl i fod yn onest gyda'i gilydd.
51. Mae aelodau'r rhwydwaith yn teimlo eu bod yn ffodus eu bod mewn gweithle sy'n deall ac yn annog amrywiaeth. Ers sefydlu ein Cymdeithas

Gristnogol, mae'r aelodau wedi bod yn gweithio i greu lle cynhwysol lle gall staff deimlo'n ddiogel, cymryd rhan mewn trafodaethau am fywyd a dysgeidiaeth Iesu Grist, a theimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo i weddio.

Cyfeillion Dementia

52. Mae ein cenhadaeth yn parhau i ddod yn sefydliad dementia gyfeillgar ac mae'r Gymdeithas Alzheimer's dal yn fodlon â'n cynnydd.
53. Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi cyflenwi sesiynau gwybodaeth cyfeillion dementia pellach ar gyfer staff, rydym wedi tyfu aelodaeth Cyfeillion Dementia ar Yammer, a chawsom hwyl wrth ddathlu diwrnod teisennau cwpan a diwrnod y coblynnod er mwyn codi ymwybyddiaeth ac arian ar gyfer ymchwil i ddementia. Rydym hefyd yn cyhoeddi cyfres o dudalennau mewnwyd o amgylch adnoddau naturiol ac iechyd, gan gynnwys adran ar dyfu'n hŷn yn iach sy'n cyfeirio at ddementia, er mwyn hysbysu a chefnogi ein staff sy'n mynychu trafodaethau perthnasol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a gyda phartneriaid eraill.
54. Yn allanol, rydym wedi parhau â'n gwaith i weithio ar brosiect Coetir Ysbryd y Llynfi, yn ogystal ag arwain dau brosiect newydd dementia gyfeillgar ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd. Mae'r rhain yn datblygu llwybr cerdded cylchol caeedig yn Noc Dwyrain Bute, gan ymgorffori rhan o Lwybr Arfordir Cymru y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei rheoli yn y lleoliad hwn, ac adolygu cyfleusterau megis cyfeirbwyntiau, seddi a byrddau gwybodaeth ym Mharc Gwledig Cosmeston. Disgwylir i'r ddau gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2019.
55. Ar gyfer trydedd flwyddyn ein hachrediad, sef ein blwyddyn olaf, byddwn yn parhau i adolygu cyfleusterau ein canolfannau ymwelwyr er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig amgylchedd croesawgar ar gyfer ymwelwyr sy'n byw gyda dementia, ochr yn ochr ag ystyriaethau mynediad eraill. Yn ogystal, rydym yn ystyried y ffordd orau o rannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu am fod yn ddementia gyfeillgar gyda phartneriaid eraill, er mwyn adeiladu ar ein huchelgais ar gyfer rhagoriaeth yn y maes hwn.



Rhwydwaith Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau a Menywod

56. Maes gwaith allweddol ar gyfer y Rhwydwaith Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau a Menywod yw cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ddod o hyd i

ffyrdd newydd o archwilio'n bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae'n galonogol gweld y bwlch yn cau blwyddyn ar ôl blwyddyn ond mae dal angen i ni archwilio ymhellach er mwyn nodi'r rhesymau gwaelodol, er mwyn helpu gyda syniadau newydd lle y gallwn roi mwy o sylw i wahaniaethau.

Calon, y rhwydwaith i staff LHDT+

57. Mae ein Rhwydwaith Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol (LHDT) wedi'i ail-frandio ac mae bellach yn cael ei adnabod fel 'Calon'. Y rheswm ar gyfer gwneud y newid hwn oedd cael brand mwy cadarn ar gyfer y rhwydwaith ac, o ganlyniad, cafwyd ail-lansiad a gyriant aelodaeth ym mis Mai 2018 i gyd-fynd â'r Diwrnod Cenedlaethol yn erbyn Homoffobia, Deuffobia a Thrawsffobia. Yn ogystal, gwnaeth aelodau weithio ar ein cyflwyniad Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall ac maent wedi cydweithio'n eang ledled Cyfoeth Naturiol Cymru i gael y dystiolaeth ofynnol. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi helpu i ledaenu ymwybyddiaeth am y rhwydwaith a'i ddiben. Ochr yn ochr â'r cyflwyniad ysgrifenedig, cynhaliwyd arolwg staff, a wnaeth gynnig cyfle i'n holl bobl, waeth beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth o ran rhywedd, ddweud wrth Stonewall sut maent yn teimlo am gynwysoldeb o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru.

58. Yn 2018, gwnaethom gymryd rhan ym mharêd Pride Cymru yn ystod dathliadau'r penwythnos yng Nghaerdydd am y tro cyntaf yn ein rhinwedd ein hunain, gyda chynrychiolwyr o nifer o feysydd gwahanol y sefydliad yn cymryd rhan.



Baneri o'r chwith i'r dde: Trawsrywedd, Deurywiol ac Anrhywiol

59. Fel rhan o sesiynau rhwydweithio 'y farchnad' yn niwrnod #TîmCNC mis Hydref diwethaf, mae'r rhwydwaith wedi cynnal gyriant aelodaeth arall mewn ymgais i gynnwys fwy o staff LHDT+ a chynghreiriaid. Her sydd wedi wynebu'r rhwydwaith yw ymgysylltu â staff i'w cael i gymryd rhan yn y rhwydwaith yn ogystal â'u 'swyddi bob dydd'.

Rhwydwaith Staff Mwslimaidd

60. Ers lansio Rhwydwaith Staff Mwslimaidd Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym wedi derbyn llawer o adborth cadarnhaol, sydd wedi ein gyrru i eisiau gwthio'r rhwydwaith ymhellach a gwneud pethau cyffrous yn y misoedd nesaf a fydd yn dangos i'n rhanddeiliaid fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru amrywiaeth, ei fod yn gyflogwr cyfle cyfartal, a'i fod yn gwerthfawrogi staff gwaeth beth fo'u cefndir crefyddol.
61. Yn 2018, aethom â grŵp bychan o bobl i fosg lleol a oedd yn cynnal prosiect 'Dewch i fwyta gyda ni', lle gwnaeth gweithwyr Cyfoeth Naturiol Cymru gael eu tywys o amgylch mosg, cael dealltwriaeth fer o Islam a chlywed yr Adhan (galw i weddio) cyn iddynt gael torri'r ympryd gyda bwyd yn ystod mis Ramadan.



Staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymweld â mosg lleol

62. Ers agor ein hystafell weddi/myfyrdod yn Nhŷ Cambria, mae ein swyddfa yn Llandarcy wedi gwneud yr un peth. Gobeithiwn, lle mae gofod yn caniatáu, y bydd swyddfeydd eraill yn gwneud yr un fath gyda chymorth y timau cyfleusterau lleol.

Dadansoddiad oedran

	Adroddiad Blynnyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Chwefror 15 (2,020 o staff)			Adroddiad Blynnyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Ionawr 16 (2,021 o staff)			Adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Medi 16 (1,865 o staff)			Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Ion 17 (1,849 o staff)			Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Ion 18 (1,902 o staff)			Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Rhagfyr 18 (1,939 o staff)		
<25	26	1.3%	↓	61	3%	↑	48	2%	↑	47	2%	↓	57	3%	↑	56	3%	↓
25-35	351	17%	↓	393	19%	↑	354	19%	↓	337	18%	↓	345	18%	↑	329	17%	↓
35-45	635	31%	↓	646	32%	↑	606	32%	↓	596	32%	↓	596	31%	→	582	30%	↓
45-55	632	31%	↑	626	31%	↓	594	31%	→	594	32%	→	596	31%	↑	628	32%	↑
55-65	347	17%	↑	284	14%	↓	253	13%	↓	264	14%	↓	291	15%	↑	324	16%	↑
65+	29	1.4%	↑	11	0.5%	↓	10	0.5%	↓	11	0.6%	↑	17	0.9%	↑	20	1%	↑

Dadansoddiad anabledd

	Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Chwefror 15 (2,020 o staff)			Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Ionawr 16 (2,021 o staff)			Adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Medi 16 (1,865 o staff)			Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Ionawr 17 (1,849 o staff)			Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Ionawr 18 (1,902 o staff)			Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Rhagfyr 18 (1,939 o staff)		
Nac oes	30%			49%	↑		55%	↑		56%	↑		61%	↑		64%	↑	
Oes	1.9%	↓		2.1%	↑		2.5%	↓		2%	→		2.9%	↑		3.3%	↑	
Byddai'n well gen i beidio â dweud	68%	↑		48%	↓		41%	↓		41%	↓		36%	↓		35%	↓	
Rhagolwg staff anabl gan dybio dychweliad 100%	5.8%			3.6%	↓		3.8%	↑		4.2%	↑		4.57%	↑		4.63%	↑	

Dadansoddiad rhywedd

	Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Chwefror 15 (2,020 o staff)			Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Ionawr 16 (2,021 o staff)			Adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Medi 16 (1,865 o staff)			Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Ionawr 17 (1,849 o staff)			Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Ionawr 18 (1,902 o staff)			Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Rhagfyr 18 (1,939 o staff)		
Gwryw	1,163	57.6%	→	1,157	57.2%	↓	1,065	57.1%	↓	1,055	57.1%	→	1,071	56.3%	↓	1,079	55.6%	↓
Benyw	857	42.4%	→	864	42.8%	↑	800	42.9%	↑	794	42.9%	→	831	43.7%	↑	860	44.4%	↑
Menywod mewn rolau arweinyddiaeth	19	28%	↑	18	27%	↓	17	30%	↑	9	29%	↓	11	36.7%	↑	10	34.5%	↓

Dadansoddiad cyfeiriadedd rhywiol

